*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 515 (Cy. 89)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018

*Gwnaed - - - - 18 Ebrill 2018*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 14(2) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 17(2)(c) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

### Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 i barhau i gael effaith

**2.** Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 i barhau mewn effaith er gwaethaf adran 14(1) o'r Ddeddf.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

18 Ebrill 2018

(**1**) 2014 dccc 6.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Effaith adran 14(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yw bod y Ddeddf i ddarfod ar 30 Gorffennaf 2018, oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(2) sy'n darparu bod y Ddeddf i barhau mewn effaith. Mae'r Gorchymyn hwn yn orchymyn o'r fath ac mae'n darparu bod y Ddeddf i barhau mewn effaith.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Gorchymyn hwn ar gael gan yr Adran Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.